



Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C
27 Mehefin, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin

Cyfarfod Rhif 428

Presennol:

**Aelodau Anweithredol
y Bwrdd:**

Huw Jones	(Cadeirydd)
Siân Lewis	(Aelod o'r Bwrdd)
Anita George	(Aelod o'r Bwrdd)
Owen Derbyshire	(Aelod o'r Bwrdd)
Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Bwrdd)
Rhodri Williams	(Aelod o'r Bwrdd)

**Aelodau Gweithredol
y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

Owen Evans	(Prif Weithredwr)
Amanda Rees	(Cyfarwyddwr Cynnwys)

**Hefyd yn bresennol:
Staff S4C:**

Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
Phil Williams	(Ysgrifennydd y Bwrdd)
Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid)– eitem 8
Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi)– eitemau 9-10
Huw Jones	(Uwch Swyddog Dadansoddi) - eitemau 9-10
Hanna Davies	(Cynorthwy-ydd Data a Dadansoddi - eitemau 9-10)
Alun Jones	(Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol - eitemau 9-10)
Bethan C. Williams	(Cynorthwydd Ysgrifennydd y Bwrdd)

Ymddiheuriadau: Elin Morris (Prif Swyddog Gweithredol)

COFNODION

Cynhaliwyd cyfarfod preifat misol ar gyfer yr Aelodau Anweithredol a'r Prif Weithredwr am 9 o'r gloch, cyn cyfarfod busnes y Bwrdd am 09.30.

MATERION SEFYDLOG:

1. Croeso a Datganiadau Diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan S4C Yr Egin.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 427 a gynhaliwyd ar 16eg Mai, 2019

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 427 a gynhaliwyd ar 16eg o Fai. Nodwyd un gwelliant a chymeradwywyd gweddill y cofnodion.

3. Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 427

Nodwyd fod nifer o faterion yn y cofnodion yn codi yn y Pwyntiau Gweithredu ac ar agenda'r cyfarfod hwn. Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

4. Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth.

Pwynt 30 – Cofnod Cyhoeddus Cymraeg.

Nodwyd fod y Cofnod Cyhoeddus Cymraeg bellach wedi ei gyhoeddi hyd at Ebrill 2019. Roedd Cofnod Cyhoeddus Mai wedi ei baratoi, ac ar gael i'w gyhoeddi yn dilyn cymeradwyo'r cofnodion gan y Bwrdd yn y cyfarfod hwn. Bydd cyfieithiadau Saesneg yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

[Crynodeb: Trafodwyd yr amserlen fwyaf effeithiol ar gyfer cyhoeddi'r Cofnod Cyhoeddus i'r dyfodol.]

Pwynt 29 - Diweddaru'r Wefan.

Nodwyd fod gwaith paratoi eisoes wedi'i wneud er mwyn diweddaru adran gorfforaethol y wefan, gan gynnwys tudalennau'r Bwrdd. Roedd angen sicrhau fod y wefan wedi ei diweddaru cyn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol gan fod nifer o gyfeiriadau yn yr adroddiad i dudalennau newydd.

5. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 Cadeirydd Newydd

Nodwyd fod hysbyseb swydd y Cadeirydd bellach wedi ymddangos, gyda'r dyddiad cau wedi ei osod ar gyfer y 10fed o Orffennaf. Mae DCMS yn parhau i obeithio cael Cadeirydd newydd yn ei le/lle erbyn diwedd fis Medi.

5.2 Gohebiaeth Cylch yr Iaith

Cyflwynodd y Cadeirydd llythyr oddi Cylch yr Iaith a oedd yn nodi nifer o bryderon parthed cynnwys ieithyddol rhaglenni S4C, y defnydd o Saesneg mewn rhaglenni S4C yn benodol a sylwadau am Ganllawiau Iaith Rhaglenni S4C.

Cyflwynodd y Cadeirydd ymateb drafft, a gofynnodd i'r Aelodau am sylwadau ar y llythyr, ac yn ogystal am briodoldeb y Canllawiau Iaith Rhaglenni eu hunain. Nododd fod y Bwrdd wedi ystyried y Canllawiau yn Ebrill 2015.

Cafwyd trafodaeth am y defnydd o Saesneg o fewn rhaglenni, a nododd AR fod ystyriaeth gyson yn cael ei roi gan y Tîm Comisiynu i ieithwedd a chynnwys ieithyddol rhaglenni. Fel rhan o'r broses o ymsefydlu Comisiynwyr newydd, roeddynt yn derbyn gwybodaeth am y Canllawiau. Roedd bwriad hefyd i atgoffa'r Comisiynwyr parthed cynnwys y Canllawiau yn flynyddol.

Roedd Comisiynwyr hefyd yn trafod perthnasedd y Canllawiau i gomisiynau penodol mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cwmnïau cynhyrchu. Erbyn hyn roedd angen ystyried y defnydd o Saesneg o fewn rhaglenni teledu yn ogystal â chynnwys penodol ar gyfer llwyfannau ar-lein. *Awgrymodd OE y dylid cofnodi'r trafodaethau parthed defnydd o iaith gyda'r cwmnïau cynhyrchu'n flynyddol.*

Nododd yr Aelodau bwysigrwydd cydymffurfio gyda'r Canllawiau Iaith Rhaglenni, a sicrhau fod unrhyw ddefnydd o'r Saesneg yn cyd-fynd gydag amodau'r Canllawiau. Pwysleisiwyd mai gwasanaeth Cymraeg yw S4C, a bod angen sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol cryf dros ddefnydd cyfyngedig o Saesneg ac ieithoedd eraill.

Cymeradwyodd y Bwrdd y llythyr drafft, a phenderfynwyd bod y Canllawiau Iaith Rhaglenni'n parhau i fod yn addas, ac nad oedd angen eu hadolygu ar sail llythyr Cylch yr Iaith.

5.3 Adroddiad Blynyddol 2018/19 – diweddariad

Nodwyd fod y Bwrdd wedi derbyn copi wedi ei ddylunio o'r Adroddiad Blynyddol ar 13 Mehefin, gyda chais i gyflwyno sylwadau a chymeradwyo naratif y ddogfen. Derbyniwyd

nifer o sylwadau a chymeradwyaeth gan yr Aelodau dros e-bost.

Roedd drafft hefyd wedi ei ddarparu i DCMS ar gyfer eu sylwadau. Derbyniwyd nifer fechan o sylwadau gan swyddogion DCMS. Cam nesaf y broses yw ceisio cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Adroddiad.

[Crynodeb: Trafodwyd mater Masnachol yn ymwneud a'r dull o werthuso gwerth buddsoddiadau a chafwyd sgwrs am y strategaeth Ddrama a amlygir yn yr Adroddiad.]

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion a'r papurau canlynol.

6.1 TAW

[Crynodeb: Nodwyd fod dogfennau apêl wedi eu cyflwyno i'r CThEM. Roedd trafodaethau'n parhau gyda'r swyddogion.]

6.2 Amcanion Gweithredol 2019/20

Cyflwynwyd a chymeradwywyd Amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2019-20. Esboniodd y Cadeirydd mai'r bwriad oedd defnyddio amcanion y Prif Weithredwr fel sail ar gyfer amcanion gweithredol cynhwysfawr i'r corff.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno Amcanion Gweithredol drafft ar gyfer 2019/20 i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, gan ddefnyddio Amcanion y Prif Weithredwr fel sail i'r amcanion corfforaethol.

6.3 Cytundeb Golygyddol gyda'r BBC

Cafwyd trafodaeth am Gytundeb Golygyddol arfaethedig S4C gyda'r BBC.

Esboniodd OE bod trafodaethau ar y gweill gyda'r BBC parthed ystod ehangach o gynlluniau na'r Cynllun Rhaglenni'n unig, a bod y rhain yn cynnwys darpariaeth newyddion digidol a phresenoldeb ar-lein ar y cyd.

[Crynodeb: Eglurwyd bod angen delio â dau fater penodol, sef cydweithio digidol/ar-lein, a sicrhau bod y cytundeb newydd yn adlewyrchu darpariaethau telerau masnach diwygiedig S4C. Roedd y BBC wedi cynnig tair scenario ar gyfer cydweithio i S4C ystyried.]

Esboniwyd mai'r bwriad oedd ceisio dod i gytundeb ar y ddarpariaeth ehangach ac unrhyw fwriad i gydweithio ar ddarpariaeth ddigidol ar y cyd, ac yna i ddod i gytundeb ar y Cytundeb Golygyddol.

Nodwyd bod yr Adolygiad o S4C wedi gwneud sylwadau am y ddarpariaeth Newyddion, gan gynnwys pryderon am blwraliaeth ac nad yw newyddion S4C yn ddigon gwahanol i ffynonellau newyddion eraill yng Nghymru.

Roedd cefnogaeth ymysg yr Aelodau i'r awydd i sicrhau rheolaeth olygyddol glir dros y ddarpariaeth newyddion, ond nodwyd fod Cytundeb y Bartneriaeth Strategol (sef rhagflaenydd y Cytundeb Golygyddol arfaethedig) eisoes yn cynnwys darpariaethau o ran sicrhau rheolaeth olygyddol i S4C.

Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau bod Cytundeb Golygyddol yn ei le. Roedd cael cytundeb ar gyfer darpariaeth statudol deg awr y BBC yn un o argymhellion Adroddiad Laughton yn 2004, ac ers hynny, mae cytundeb wedi bod yn ei le ar gyfer y ddarpariaeth. Roedd y Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd yn cynnwys rhai darpariaethau trosgynnol, megis ymrwymiad y BBC i lefel y cyfraniad ariannol hyd at 2021/22, ond roedd angen Cytundeb Golygyddol er mwyn nodi'r manylion perthnasol ar gyfer y ddarpariaeth.

Awgrymwyd y dylid blaenoriaethu dod i gytundeb ar y Cytundeb Golygyddol a'r ddarpariaeth statudol ar wahân i unrhyw drafodaethau ehangach o ran cydweithio gyda'r BBC.

[Crynodeb: Trafodwyd gwerth y cynnwys ac ymwybyddiaeth y gynulleidfa o frandiau'r ddau gorff.]

Nododd yr Aelodau y byddai angen dod i ddealltwriaeth a ffurf glir o bartneriaeth sydd wedi ei gytuno gan S4C a'r BBC os yw newidiadau sylweddol am gael eu cyflwyno o ran y ddarpariaeth newyddion ar deledu ac ar-lein. O fewn unrhyw bartneriaeth arfaethedig o'r fath, byddai angen sicrhau fod y naill barti a'r llall yn parchu'r hyn sy'n bwysig i'r ddau, sef yn achos S4C annibyniaeth a hunaniaeth y gwasanaeth a rheolaeth olygyddol dros holl gynnwys y sianel ar bob llwyfan.

[Crynodeb: Tra'n canolbwyntio ar ddod i gytundeb hyd at 2022 nodwyd yr angen i gadw llygaid ar y tymor hir.]

Awgrymwyd y dylai cydweithrediad gyda Radio Cymru fod yn rhan ganolog o'r trafodaethau. Nododd OE fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Rhuanedd Richards, Golygydd Radio Cymru i drafod cydweithio pellach, ac y byddai'n trafod ffurfiol i'r cydweithio gyda Rhuanedd ac RTD.

Cyfeiriwyd at y darpariaethau statudol, a dyletswydd y BBC i ddarparu 520 o oriau o raglenni yn unol â disgwyliadau rhesymol S4C ar gyfer gwasanaeth teledu S4C. Roedd DCMS wedi gwrthod ystyried diweddarau'r darpariaethau statudol i gynnwys gwasanaethau ar-lein, ac felly roedd y gofyn i ddarparu 520 o oriau ar gyfer y gwasanaeth teledu yn y lle cyntaf yn parhau.

Roedd angen i swyddogion barhau i ystyried sut y mae gwasanaeth teledu a darpariaeth ar-lein gynhwysfawr, gan gynnwys darpariaeth Newyddion am weithio yn y tymor hir. Byddai angen sicrhau mewn unrhyw gynlluniau arfaethedig a gyflwynir i'r Bwrdd y bydd brand ac hunaniaeth S4C yn glir ac yn flaenllaw.

Penderfynwyd gofyn i OE i barhau i gynnal trafodaeth agored gyda'r BBC gan bwysleisio'r materion ac egwyddorion sy'n bwysig i S4C, a deall y rhai sy'n bwysig hefyd i'r BBC gyda'r bwriad i geisio dod i ddealltwriaeth fyddai'n dderbyniol i'r naill gorff a'r llall o ran cydweithio ar-lein. Byddai angen cyflwyno unrhyw gynlluniau arfaethedig ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth y Bwrdd maes o law.

Penderfynwyd y dylid blaenoriaethu dod i gytundeb ar Gytundeb Golygyddol ar gyfer y cyfnod 2019/20 hyd 2021/22.

Nododd PW nad oedd y Bwrdd wedi derbyn nac ystyried Cynllun Rhaglenni ar gyfer darpariaeth statudol y BBC ar gyfer 2019/20, a bod sicrhau cyfle i'r Bwrdd ystyried cynllun drafft cyn dechrau'r flwyddyn berthnasol yn egwyddor bwysig o ran y berthynas a gweithredu a sicrhau rheolaeth olygyddol S4C. Esboniodd AR fod trafodaethau wedi eu cynnal gyda swyddogion y BBC parthed cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer 2019/20.

Nodwyd yr angen i symud yn ôl i amserlen flynyddol sy'n caniatáu cyfle i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo cynnwys y Cynllun Rhaglenni mewn da bryd cyn dechrau'r flwyddyn berthnasol ar gyfer 2020/21. Roedd trafodaethau'r Pro14 wedi golygu nad oedd hyn wedi bod yn bosib ar gyfer 2018/19, ond roedd y materion hyn bellach wedi eu cytuno.

Nodwyd yr angen i gyflwyno Cynllun Rhaglenni 2019/20 i'r Bwrdd fel blaenoriaeth, gan fod un chwarter o'r flwyddyn eisoes wedi pasio.

6.4 **Polisi Gwobrau Rhyngwladol**

Cyflwynodd AR Bolisi Gwobrau Rhyngwladol drafft, gan nodi ei bod yn awyddus i dderbyn adborth ac arweiniad y Bwrdd.

Nododd bod rhaglenni S4C wedi ennill nifer o enwebiadau a gwobrau arbennig eleni, a bod hyn yn dyst i ansawdd y rhaglenni. Roedd ymgais fwriadol wedi bod yn ystod y flwyddyn i gynnig mwy o raglenni ar gyfer ystod ehangach o wobrau, ac roedd yn ymddangos bod y strategaeth wedi llwyddo.

Cafwyd trafodaeth am y Strategaeth arfaethedig, a nodwyd cefnogaeth gyffredinol y Bwrdd i'r amcan o ennill gwobrau ac enwebiadau ar gyfer rhaglenni S4C, ond y dylid sicrhau fod comisiynau'n cael eu penderfynu ar sail anghenion y gynulleidfa a'r gwasanaeth, ac osgoi comisiynu ar gyfer ennill enwebiad neu wobwr lle roedd hynny'n groes i'r egwyddor honno.

[Crynodeb: Er mwyn sicrhau darlun cyflawn, cyfeiriwyd at y costau o geisio am enwebiadau.]

Wrth gynnig cefnogaeth i'r Strategaeth a'i amcanion a'r awydd i ymfalchïo mewn llwyddiant rhaglenni S4C, nodwyd yr angen i sicrhau fod costau sicrhau enwebiadau a gwobrau yn cael eu rheoli'n ofalus.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Wobrau Rhyngwladol.

Pan ddatblygir cynllun i geisio am wobwr neu enwebiad sylweddol, megis Oscar, nodwyd y dylid cyfeirio unrhyw gynllun o'r fath, ac unrhyw gynlluniau gwariant sylweddol cysylltiedig i'r Bwrdd ar gyfer ei ystyriaeth ymlaen llaw.

Diweddariad - S4C Digidol: Y Ffordd Ymlaen

Cyflwynodd OE gyflwyniad powerpoint a oedd yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y Cyflwyniad Digidol a gyflwynodd RM i'r Bwrdd ym mis Mawrth – Hen Lyfrgell.

Roedd y cyflwyniad yn diweddar i'r Bwrdd ar gynlluniau S4C i ddatblygu llwyfan S4C Clic i fod yn hafan ar gyfer holl gynnwys S4C, yn hytrach na 'chwaraewr' yn unig. Roedd hefyd yn cyflwyno diweddariad ar y cynlluniau i geisio creu un ffynhonnell ddata ar gyfer defnydd gwasanaethau S4C, a chynlluniau cofrestru ('login') a marchnata a hyrwyddo i wylwyr unigol.

[Crynodeb: Roedd cofrestru gorfodol wedi ei gyflwyno i Clic ers 6 wythnos, ac eisoes mae nifer calonogol o bobl wedi cofrestru, gyda sawl un ohonynt hefyd wedi nodi dymuniad i dderbyn cylchlythyr S4C. Bydd y Cylchlythyr cyntaf yn cael ei anfon ymhen pythefnos.]

Awgrymwyd y dylid cysylltu gyda'r rheini sydd wedi nodi dymuniad i dderbyn cylchlythyr S4C yn fuan er mwyn sicrhau nad ydynt yn meddwl bod S4C anghofio amdanynt. Fel arall bydd deufis wedi mynd ers cyflwyno'r cofrestru gorfodol a derbyn y cylchlythyr cyntaf.

Roedd sianel Hansh wedi ei lansio ar Clic, ac roedd cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth sianeli i gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr.

Roedd gwylio i ddarpariaeth y Bocs-Sets yn parhau i gynyddu, gyda ffigyrau Clic wedi cynyddu 10% o ganlyniad i wyluo bocs-sets.

Gobeithir y bydd modd lansio darpariaeth Walter Presents yn yr hydref, a fydd hefyd yn creu diddordeb yn narpariaeth S4C.

Roedd gwaith parhaol yn digwydd er mwyn asesu ar ba lwyfannau y dylid datblygu Ap S4C. Roedd y Strategaeth Ddigidol a gyflwynwyd yn Ionawr 2018 yn nodi na fyddai modd i S4C fod â phresenoldeb ar bob llwyfan Teledu Clyfar oherwydd costau sylweddol menter o'r fath. O'r herwydd, bydd angen parhau i flaenoriaethu llwyfannau poblogaidd a sicrhau'r gallu a'r adnoddau technegol ac ariannol i'w cynnal a'u diweddar i'w gyson.

6.6 Ap Tywydd

Cyfeiriwyd at drafferthion gyda gallu'r Ap Tywydd i adnabod lleoliad y defnyddiwr. Esboniodd OE ei fod yn ymddangos fod penderfyniad dwy flynedd yn ôl i beidio parhau gyda chytundeb ar gyfer data lleoliadau wedi arwain at fethiant o fewn yr Ap i adnabod lleoliad defnyddwyr. Roedd trafodaethau'n parhau yn fewnol o ran opsiynau ar gyfer diweddar darpariaeth Tywydd ar-lein S4C, gan gynnwys yr Ap. Roedd yr opsiynau dan ystyriaeth yn cynnwys ail-gytundebu gyda'r darparwr data blaenorol, diweddar'r Ap presennol ac ystyried cytundebu gyda'r BBC yn y dyfodol i ddarparu gwasanaeth tywydd S4C ar deledu ac ar-lein.

6.7 Polisi Diwydiannol / Hyfforddiant yn y Sector

Adroddodd OE ei fod wedi comisiynu Dafydd Hughes i gyflawni ymchwil o ran gofynion hyfforddiant o fewn y sector, ac ystyried sut byddai modd creu strwythur tebyg i Cyfle er mwyn cydlynu hyfforddiant yn y sector.

Nodwyd penderfyniad y Bwrdd ym mis Mai i swyddogion ddatblygu Polisi Diwydiannol yn seiliedig ar y gwaith ymchwil a'r argymhellion a gyflwynwyd a'r angen i gyflwyno'r Polisi maes o law ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth y Bwrdd.

7. Datganiad Polisi Rhaglenni 2019/20 ac Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2018/19

Cyflwynwyd drafft o Ddatganiad Polisi Rhaglenni 2019/20, a nodwyd fod angen cwblhau rhai adrannau.

Penderfynwyd y byddai AR a CHR yn cwblhau'r Datganiad Polisi Rhaglenni, ac y byddai AR yn llunio Adolygiad Datganiad Polisi Drafft yn seiliedig ar naratif perfformiad yr Adroddiad Blyneddol, i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

8. Adroddiad Ariannol Ch4 2018/19

Cyflwynodd ShW Adroddiad Ariannol Ch4 2018/19. Nodwyd fod yr adroddiad yn cydfynd gyda sefyllfa diwedd y flwyddyn a gyflwynwyd yn y Datganiad Ariannol ym mis Mai.

9. Crynodeb Perfformiad Trosgynnol Misol a Chrynodeb newydd Perfformiad Digidol Misol

[Crynodeb: Cyflwynodd CE a HJY y Crynodeb Perfformiad Trosgynnol Misol a Chrynodeb newydd Perfformiad Digidol Misol. Trafodwyd rhai o'r tueddiadau a amlygwyd a'r rhesymau y tu ôl iddynt.]

Cafwyd trafodaeth am y berthynas rhwng cyrhaeddiad ac oriau o gynnwys a wylwyd, a holwyd faint o bwyslais y dylid ei roi ar y naill a'r llall. Nodwyd fod Fframwaith Mesuryddion Perfformiad y Bwrdd yn defnyddio cyrhaeddiad yng Nghymru fel y prif fesur ar gyfer asesu maint cynulleidfa (y gwasanaeth teledu, gyda sesiynau gwyllo ar-lein ar wahân nes y bydd modd eu cyfuno).

Nodwyd nad oedd y berthynas a'r cydbwysedd rhwng cyrhaeddiad ac oriau a wylwyd yn un newydd, a bod perthynas o'r fath, rhwng mesuryddion gwahanol wedi bodoli ers sefydlu S4C. Nid oedd modd canolbwyntio ar un ar draul y llall. Fe fydd cyrhaeddiad yn parhau i fod yn fesur pwysig i S4C er mwyn gallu profi i randdeiliaid ac arianwyr faint o bobl sy'n gwyllo cynnwys S4C, ond bydd teyrngarwch y gynulleidfa, a sicrhau fod ystod o gynnwys sy'n apelio ac sy'n cael ei wyllo hefyd yn bwysig.

Cyflwynodd CE Grynoded Perfformiad Digidol Misol, gan nodi fod hon yn ddogfen newydd sydd wedi ei llunio yn dilyn cais y Bwrdd i dderbyn crynodeb syml o berfformiad y ddarpariaeth ddigidol fesul mis.

Roedd pob mesur yn parhau i ddangos cynnydd flwyddyn ar flwyddyn.

Nodwyd fod yr adroddiad ond yn cynnwys mesur oriau a wylwyd, ac nad oedd yn cynnwys sesiynau gwyllo, ac awgrymwyd y dylid adrodd ar y ddau fesurydd er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o ran y gwyllo arlein. Roedd cyflwyno cyrhaeddiad ac oriau a wylwyd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr ar gyfer defnydd ar deledu.

10. **Cyflwyniad: Perfformiad Cyfryngau Cymdeithasol S4C 2018/19**

Cyflwynodd Hanna Davies ac Alun Jones adroddiad am berfformiad S4C ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod 2018/19.

Roedd nifer o batrymau amrywiol i'w gweld ar y llwyfannau gwahanol, gyda digwyddiadau neu glipiau unigol yn gyfrifol am lawer o'r gwyllo, a hynny'n aml yn digwydd yn naturiol, a heb ei gynllunio gan S4C.

O fewn y patrymau hyn, roedd nifer dilynwyr, sesiynau gwylwyr ac ymwneud yn cynyddu.

Esboniwyd fod llawer o waith wedi ei wneud gyda'r cwmnïau cynhyrchu er mwyn sicrhau fod y wybodaeth am berfformiad cynnwys S4C ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys pob brand a'r holl gynnwys sy'n cael ei ariannu gan S4C. Roedd yn bwysig sicrhau fod unrhyw gynnwys sy'n cael ei ariannu gan S4C yn cael ei gyfri wrth asesu impact a defnydd y cynnwys.

Roedd y gwaith yma'n parhau, a chyfeiriwyd at enghreifftiau diweddar gan nodi fod data Sgorio wedi bod ar gael ers wythnos diwethaf, ond hyd yma nid oedd data ar gyfer Pobol y Cwm ar gael gan y BBC.

Nodwyd yr angen i sicrhau fod mynediad i ddata cyfryngau cymdeithasol holl raglenni a chyfresi S4C yn amod cytundebol ar y cwmnïau cynhyrchu annibynnol.

Cyflwynwyd diweddariad ar waith asesu perfformiad argraffiadau a phostiadau, gan esbonio fod nifer y postiadau wedi ei leihau yn fwriadol, ond bod hyn yn arwain at gynydd o ran sesiynau gwyllo ac ymwneud gyda'r cynnwys.

Roedd fersiynau penodol o promos yn cael eu paratoi bellach ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, gyda gwybodaeth berthnasol, megis manylion darlledu rhaglenni yn cael eu cyflwyno'n gynharach mewn promos cyfryngau cymdeithasol nac mewn promos teledu.

Wrth ystyried sut i fesur llwyddiant a chynnydd gwyllo ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, nodwyd fod un clip neu ddigwyddiad penodol, o raglenni megis Chwaraeon, Sgorio, Hansh neu Cân i Gymru yn gallu cael effaith sylweddol ar y gwyllo, heb fod hynny wedi ei gynllunio.

Roedd yn galonogol iawn bod y gynulleidfa'n rhannu ac yn ymwneud gyda chynnwys S4C yn y modd hwn, ond roedd hefyd yn golygu nad oes modd cymharu perfformiad dros gyfnodau byr flwyddyn ar flwyddyn.

11. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 er gwybodaeth i'r Bwrdd.

12. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

13. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.